

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth
y Gogledd

Cyfeirnod: AC383/caf

Dyddiad cyhoeddi: 31 Awst 2023

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter

Caerdydd / Cardiff

CF10 4BZTel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

info@audit.wales / post@archwilio.cymru

www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Annwyl gydweithwyr

Sylwebaeth ar gynnydd Cydbwyllgorau Corfforedig – Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Yn dilyn fy adroddiad cryno diweddar ar gynnydd y Cydbwyllgorau Corfforedig o ran datblygu eu trefniadau, mae'r llythyr hwn yn nodi'r canfyddiadau sy'n berthnasol i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Mae wedi'i strwythuro'n seiliedig ar y meysydd canlynol fel yr oedd yr adroddiad cryno:

- y ddealltwriaeth am nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cydbwyllgorau Corfforedig
- trefniadau llywodraethu esblygol.
- cynlluniau'r Cydbwyllgor Corfforedig i gyrraedd nodau Llywodraeth Cymru a chyflawni ei rwymedigaethau statudol.
- y berthynas rhwng y Cydbwyllgor Corfforedig a threfniadau partneriaeth presennol.
- cynlluniau'r Cydbwyllgor Corfforedig i ateb ei ofynion dan Ddeddf LICD, gan gynnwys pennu ei amcanion llesiant.

Bydd fy nhîm yn hapus i ddod i un o gyfarfodydd y Cydbwyllgor Corfforedig i drafod y canfyddiadau.

Y ddealltwriaeth am nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cydbwyllgorau Corfforedig

- Mae Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru'n deall yn gyffredinol beth yw nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cydbwyllgorau Corfforedig. Fodd bynnag, pan wnes i fy ngwaith cychwynnol yn hydref 2022, canfûm fod y Cydbwyllgor Corfforedig yn derbyn, yn hytrach na chofleidio, y nodau hyn.
- Roedd awydd am y Cydbwyllgor Corfforedig ac ymrwymiad iddo'n gymysg ymhlith y cyrff cyfansoddol. Roedd peth sgeptigaeth ynghylch manteision y Cydbwyllgorau Corfforedig. O ganlyniad, roeddwn yn pryderu bod risg na fyddai'r Cydbwyllgor Corfforedig yn datblygu'n effeithiol er budd y rhanbarth ac y byddai'n bodoli mewn enw yn unig.

- Fel a grybwyllaf yn fy adroddiad cryno, rwy'n cydnabod bod ymdeimlad cryf o rwystredigaeth ynglŷn â pharodrwydd Llywodraeth Cymru i roi cymorth i roi'r Cydbwyllgorau Corfforedig ar waith. Roedd hyn yn cynnwys y dull graddol o ymdrin â deddfwriaeth a chanllawiau, ond yn nodedig y materion o ran statws cyfreithiol mewn perthynas â TAW a benthyca, a chyflymder y broses o ddatrys y materion hyn. A bydd y ffaith bod y materion hyn wedi dylanwadu ar awydd y Cydbwyllgor Corfforedig am y Cydbwyllgor Corfforedig ac wedi effeithio ar ei allu i ddatblygu a thanategu rhai o'r meysydd cyfyngedig lle gwelwyd cynnydd yn cael sylw gennyf yn nes ymlaen yn y llythyr hwn.
- Rwy'n ymwybodol bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi codi'r materion hyn mewn modd rhagweithiol gyda Llywodraeth Cymru a'i fod hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch cyflymder y broses o'u datrys a'u heffaith bosibl, megis costau uwch.
- Yn nes ymlaen yn y llythyr hwn rwy'n amlygu'r ffaith fy mod, dros yr ychydig fisoedd diwethaf, wedi gallu gweld rhai arwyddion bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn symud ymlaen. Rwy'n gobeithio y bydd y Cydbwyllgor Corfforedig yn gwneud y gorau o'r pwerau a'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo fel cyrff llywodraeth leol newydd.

Trefniadau llywodraethu

- **Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi sefydlu ei drefniadau llywodraethu craidd yn gymesur â'i weithrediad lleiafsymiol hyd yma. Nid yw agweddau pellach ar ei gyfansoddiad wedi cael eu datblygu eto ac nid yw rhai trefniadau'n weithredol eto.**
- Fe gytunodd y Cydbwyllgor Corfforedig ar elfennau o'i gyfansoddiad ym mis Ionawr 2022. Roedd hyn yn cynnwys ei reolau sefydlog. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd ers hynny.
- O ran swyddi statudol, mae wedi cynyddu i'r eithaf yr hyblygrwydd i deilwra'i drefniadau. Mae wedi penodi Cyfarwyddwr Portffolio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i rôl Prif Weithredwr y Cydbwyllgor Corfforedig ar sail ran-amser ac interim tan fis Medi 2023. Caiff rolau'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro eu dal gan y priod swyddogion o Gyngor Gwynedd.
- Fe gytunodd ar ei gyllideb ar gyfer 2023-24 fel oedd yn ofynnol ym mis Ionawr 2023.
- Gan bod ei weithgareddau wedi bod yn gyfyngedig hyd yma, nid yw rhai o'i drefniadau llywodraethu'n weithredol eto. Rwy'n cydnabod nad oedd ar y Cydbwyllgor Corfforedig eisiau symud ymlaen gyda'i drefniadau nes bod y materion o ran ei statws ariannol wedi cael eu datrys.
- Mae'r canllawiau statudol ar y Cydbwyllgor Corfforedig yn nodi'r disgwyliad y bydd y Cydbwyllgor Corfforedig yn sefydlu isbwyllgorau penodol ar gyfer ei swyddogaethau allweddol. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi gwneud hyn ac wedi cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer ei isbwyllgorau Cynllunio Strategol a

Thrafnidiaeth Strategol. Cynhaliwyd sesiwn briffio anffurfiol gydag aelodau'r isbwyllgorau hyn ym mis Mawrth 2023, ond nid ydynt wedi cwrdd yn ffurfiol eto.

- Mae'n ofynnol bod gan y Cydbwyllgor Corfforedig Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae wedi cytuno ar reolau sefydlog a chylch gorchwyl ar gyfer y pwyllgor hwn. Ond o ran y sefyllfa ym mis Mai 2023, nid yw'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi penodi aelodau, gan gynnwys aelodau lleyg, i'r isbwyllgor hwn felly nid yw wedi cwrdd eto.
- Mae'r chwe aelod o Uchelgais Gogledd Cymru (UGC) sy'n cynrychioli Cynghorau wedi penderfynu mewn egwyddor y bydd swyddogaethau UGC yn cael eu trosglwyddo i'r Cydbwyllgor Corfforedig fel isbwyllgor gan gydnabod y cyfleoedd i leihau achosion o ddyblygu a symleiddio trefniadau llywodraethu. Os bydd y trosglwyddiad yn digwydd, bydd gan y Cydbwyllgor Corfforedig gyllideb fwy o lawer a mwy o gyfrifoldeb a bydd mwy o arwyddocâd i rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Byddwn yn disgwyl, felly, ei fod yn cyfansoddi ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cyfle cynharaf fel bod craffu a goruchwyliaeth angenrheidiol ar ei sefyllfa ariannol a'i drefniadau.
- Ers datrys y materion ariannol, mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn gwneud cynnydd i ddatblygu a chytuno ar agweddau pellach ar ei drefniadau llywodraethu. Er enghraifft, ym mis Mawrth fe gytunodd ar ei Bolisi Cyflog ac ym mis Mai 2023, ei God Ymddygiad ar gyfer Aelodau, a'i orchymyn Contract a Materion Cyfreithiol.
- Mae hefyd wedi achub ar y cyfle i ddefnyddio rhai o drefniadau presennol ei gyrrff cyfansoddol. Er enghraifft, mae wedi mabwysiadu rheolau sefydlog contractau a rheolau caffael Cyngor Gwynedd. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi cytuno hefyd y bydd aelodaeth ei Bwyllgor Safonau'n aelodau annibynnol a enwebwyd o Bwyllgorau Safonau presennol y cynghorau ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Mae agweddau pellach ar ei drefniadau llywodraethu'n dal heb eu datblygu eto.
- Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Corfforedig gydweithredu gyda phrosesau craffu'r cyrrff cyfansoddol neu drwy gydbwyllgor craffu a darparu cymorth ar gyfer hynny. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn bwriadu archwilio'r opsiynau ar gyfer craffu wrth iddo ddechrau'r broses i drosglwyddo UGC i'r Cydbwyllgor Corfforedig. Efallai y byddai'r Cydbwyllgor Corfforedig yn ei gael yn ddefnyddiol edrych ar fy [mhapur trafod ar graffu](#) wrth iddo wneud hyn. Bydd hi'n bwysig i'r Cydbwyllgor Corfforedig gael ei ddwyn i gyfrif am ei weithgareddau. Mae angen i'r cyrrff cyfansoddol a'r Cydbwyllgor Corfforedig benderfynu sut y bydd hyn yn digwydd gan gynnwys dros y 12 mis nesaf tra bo'r trosglwyddiad yn digwydd.
- Byddwn i'n disgwyl bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn bwrw ymlaen â datblygu ei drefniadau llywodraethu yn awr. Byddaf yn monitro eu datblygiad dros y 12 mis nesaf. Byddwn yn disgwyl gweld eu bod yn gweithredu'n ymarferol i helpu i ddarparu'r rhwystrau a gwrthbwysau angenrheidiol yn unol ag egwyddorion llywodraethu da.

Cynnydd ac eglurder cynlluniau

- **Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn dechrau egluro'i gynlluniau a'i uchelgeisiau. Roeddwn yn pryderu i ddechrau nad oedd cyfeiriad clir ganddo oherwydd y diffyg consensws ynglŷn â'i ddiben. Ond rwyf bellach yn fwy optimistaidd bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn dechrau symud ymlaen gan baratoi ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau a phwerau craidd.**
- Yn hydref 2022, roedd lefel amrywiol yr awydd am y Cydbwyllgor Corfforedig ymhlith y cyrff cyfansoddol yn amlygu ei hun yng nghynnydd y Cydbwyllgor Corfforedig a lefel ei uchelgais. Nid oedd gan y Cydbwyllgor Corfforedig unrhyw gynlluniau eglur na chyfeiriad y cytunwyd arno a chyfyngedig fu'r cynnydd gyda'i swyddogaethau craidd.
- Rwy'n ymwybodol bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn teimlo bod hyn yn gysylltiedig â'r oedi wrth ddatrys y materion o ran statws ariannol. Hefyd, bod Llywodraeth Cymru heb gwblhau'r canllawiau ynghylch Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Cydbwyllgorau Corfforedig ynghylch y swyddogaethau datblygu strategol a chynllunio trafndiaeth felly dylai fod gan y Cydbwyllgor Corfforedig rywfaint o ddealltwriaeth am ddisgwyliadau. Er enghraifft, rhannodd swyddogion Llywodraeth Cymru hysbysiadau cynghori a oedd yn argymhell y dylid paratoi'n gynnar ar gyfer y cynlluniau datblygu strategol ym mis Awst 2021. Cynhaliwyd digwyddiad ym mis Ionawr 2022 hefyd i drafod disgwyliadau.
- Felly, er gwaethaf y materion o ran statws ariannol, byddwn wedi hoffi gweld mwy o gynnydd yn y meysydd hyn. Byddwn yn disgwyl gweld cynnydd pellach o'r pwynt hwn ymlaen yn enwedig i roi hwb cychwynnol i broses y CDS sy'n gymhleth ac yn faith.
- Yn yr ychydig fisoedd diwethaf, gallaf weld bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn dechrau penderfynu sut y mae'n mynd i weithredu a chyflawni ei swyddogaethau craidd.
- Fe asesodd gyfres o opsiynau i ddarparu adnoddau ar gyfer ei swyddogaethau cynllunio datblygu strategol (CDS) a chynllunio trafndiaeth rhanbarthol (CTRh) ym mis Mawrth 2023. Fe gytunodd ar strwythur staffio cychwynnol sy'n cynnwys swyddogion i arwain ar y prosesau CDS a CTRh a oruchwylir gan swydd Rheolwr Swyddogaethau Statudol. Mae cyllideb y Cydbwyllgor Corfforedig ar gyfer 2023-24 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer staffio i gefnogi'r swyddogaethau hyn. Byddai'r aelodau hyn o staff yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Cydbwyllgor Corfforaethol yn unol â'i bwerau fel endid cyfreithiol ar wahân.
- Nawr bod y materion o ran statws ariannol, gan gynnwys y rhai a oedd yn ymwneud â TAW a benthyca, wedi cael eu datrys, mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn amcanu at drosglwyddo Uchelgais Gogledd Cymru i'r

Cydbwyllgor Corfforedig erbyn 1 Ebrill 2024. Yn ei strwythur staffio cychwynnol, mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi cymryd camau i ystyried y model staffio yn y dyfodol i hwyluso'r trosglwyddiad posibl hwn. Mae hyn yn cynnwys penodi Cyfarwyddwr Portffolio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) fel Prif Weithredwr interim a rhan-amser y Cydbwyllgor Corfforedig.

- Bydd trosglwyddo UGC i'r Cydbwyllgor Corfforedig yn galw am gynllunio sylweddol o ystyried y gwahanol seiliau cyfreithiol a mecanweithiau cyllido. Nid yw'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi datblygu cynllun i gefnogi'r trosglwyddiad hwn. Byddwn i'n cynnig ei fod yn gwneud hynny ar y cyfle cynharaf yn enwedig o ystyried y gwahanol gyrff y bydd angen eu cynnwys i alluogi hyn i ddigwydd. Rwy'n deall bod gwaith cychwynnol wedi dechrau i ystyried ystod o faterion.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi cytuno ar drefniadau dros dro i ateb ei ofynion o ran y Gymraeg, ond nid yw wedi cyhoeddi ei gynllun gweithredu ar Dlodi Plant na'i adroddiad ar fioamrywiaeth fel sy'n ofynnol fel rhan o'i ddyletswyddau fel corff yn y sector cyhoeddus. Rwy'n deall mai barn y Cydbwyllgor Corfforedig yw y bu'n anodd mynd i'r afael â'i ddyletswyddau fel corff yn y sector cyhoeddus heb fwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch y gofynion ar gyfer y Cydbwyllgor Corfforedig o ran cynllun datblygu strategol ac mewn perthynas â thrafnidiaeth, a heb ddatrys y materion o ran ei statws ariannol. Rwyf wedi gwneud sylw uchod ar fy marn ynglŷn â hyn. Byddwn yn disgwyl gweld y Cydbwyllgor Corfforedig yn mynd i'r afael â'i ddyletswyddau fel corff yn y sector cyhoeddus ar y cyfle cynharaf er fy mod yn derbyn y bydd hyn yn digwydd mewn modd sy'n gymesur â'i rôl.

Partneriaethau

- **Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn adeiladu ar y trefniadau gweithio mewn partneriaeth a ddatblygwyd trwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Ond nid yw'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi archwilio sut y gall weithio gyda chyrrff a phartneriaethau eraill gan gynnwys sut y gall wneud y gorau o'r ymwneud gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y tu hwnt i'w rôl yn y broses cynllunio datblygiad strategol.**
- Rwyf wedi gwneud sylwadau'n fynych ar y dirwedd gymhleth o ran partneriaethau yng Nghymru felly rwyf yn awyddus i weld sut y mae Cydbwyllgorau Corfforedig yn archwilio'u perthynas â phartneriaethau presennol a sut y maent yn gweithio gyda hwy i wneud y gorau o'r adnoddau presennol ac i fynd i'r afael â heriau mewn modd mwy cydweithredol.
- Mae trefniadau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o wahanol gyrff gan gynnwys y sector preifat, prifysgolion ac addysg bellach.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn gallu cyfethol aelodau eraill i'w drefniadau. Mae wedi cytuno ar aelodaeth ei isbwyllgorau Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth. Nid yw'r isbwyllgorau hyn wedi cwrdd eto i allu argymhell aelodau cyfetholedig eraill posibl. Bydd hi'n allweddol bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn

archwilio sut y gall ymgysylltu â chyrrff eraill a gweithio gyda hwy i wneud y gorau o adnoddau ac arbenigedd yn y rhanbarth.

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn aelod statudol o'r cydbwyllgor corfforedig. Mae rheolau sefydlog y Cydbwyllgor Corfforedig yn datgan bod rôl APCE yn gyfyngedig i'r swyddogaeth cynllunio strategol. Mae'r APC wedi enwebu cynrychiolydd i eistedd ar yr Isbwyllgor Cynllunio. Ond y tu hwnt i hyn, nid yw'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi achub ar y cyfle i gynnwys APCE yn ei rolau a swyddogaethau eraill. Eto mae gan APCE ofynion o ran datblygu economaidd hefyd ac mae ganddo gyrhaeddiad sylweddol yn ddaearyddol. Mae gan APCE y potensial i helpu'r Cydbwyllgor Corfforedig i gyflawni ei amcanion a'i swyddogaethau. Byddai o fudd i'r Cydbwyllgor Corfforedig archwilio sut y gall weithio gydag APCE i hwyluso hyn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- **Nid yw'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi cyhoeddi ei amcanion llesiant. Roedd hi'n ofynnol iddo wneud hynny erbyn 1 Ebrill 2023. Byddwn yn disgwyl ei weld yn symud ymlaen gyda'r rhain yn unol â gofynion deddfwriaethol.**
- Fel y cyrrff eraill a enwir dan Ddeddf LICD, rhaid i'r Cydbwyllgor Corfforedig osod a chyhoeddi amcanion llesiant. Rhaid iddo weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r amcanion hynny ac wrth gymryd camau i'w cyflawni.
- Dynododd y Cydbwyllgor Corfforedig y bydd mewn sefyllfa well i ddrafftio'i amcanion llesiant unwaith y bydd wedi cael y canllawiau terfynol ar ddatblygu strategol a chynllunio trafndiaeth rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ac wedi penodi swyddogion cynllunio a thrafnidiaeth. Dim ond yn ddiweddar y mae wedi cytuno ar y swyddi hyn.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi dweud hefyd y byddai trosglwyddo UGC i'r Cydbwyllgor Corfforedig yn effeithio ar ei amcanion llesiant.
- Rwy'n ymwybodol bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi trafod ei ddull a'i safbwynt gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Rwy'n derbyn bod ar y Cydbwyllgor Corfforedig eisiau mabwysiadu dull pragmatig o bennu ei amcanion llesiant a hwnnw'n un sy'n gymesur â'i rolau a'i weithgareddau, sydd wedi bod yn gyfyngedig hyd yma.
- Mae gan y Cydbwyllgor Corfforedig set eglur o swyddogaethau a dealltwriaeth eang am ei gyfeiriad gan adeiladu ar waith BUEGC i ddechrau llunio'i amcanion llesiant. Byddwn wedi disgwyl i'r Cydbwyllgor Corfforedig fod wedi dechrau rhoi peth ystyriaeth i'r rhain a sut y bydd yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio wrth bennu'r rhain. Mae gwneud hynny'n rhoi cyfle amlwg i'r Cydbwyllgor Corfforedig ddisgrifio'i uchelgeisiau rhanbarthol.
- Byddwn yn disgwyl i'r Cydbwyllgor Corfforedig fod yn gwneud mwy o gynnydd o ran datblygu ei amcanion llesiant dros yr ychydig fisoedd nesaf yn enwedig

gan bod mwy o eglurder bellach ynglŷn â'r disgwyliadau mewn perthynas â'i swyddogaethau a throsglwyddo UGC i'r Cydbwyllgor Corfforedig. Byddai hyn yn cynnwys gweithio gyda chyrff eraill, megis y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac archwilio'r effaith ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

- Yn fwy eang, mae dyletswydd ar y Cydbwyllgor Corfforedig i weithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r fframwaith hwnnw'n cynnig y potensial i ychwanegu gwerth at y modd y mae'n cynllunio ac yn cyflawni ei waith. Er enghraifft, manteision ehangach cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i gyflawni ei bwerau trafndiaeth, cynllunio a datblygu economaidd. Efallai y byddai'r Cydbwyllgor Corfforedig yn ei gael yn ddefnyddiol tynnu ar yr ystod o adnoddau ar gyfer trafndiaeth a chynllunio sydd ar gael ar wefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
- Byddaf yn disgwyl gweld y Cydbwyllgor Corfforedig yn cymhwyso'r egwyddor hon mewn ffordd ystyrlon, ar draws ei holl swyddogaethau. Byddaf yn cynnal archwiliadau i ganfod i ba raddau y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn blynyddoedd yn y dyfodol, fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf.
- Mae fy nhîm wedi datblygu rhai dangosyddion cadarnhaol sy'n darparu set enghreifftiol o nodweddion i ddangos sut y mae da yn edrych pan fo sefydliadau'n gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd y cyrff cyfansoddol yn gyfarwydd â'r rhain, a bydd yn ddefnyddiol i'r Cydbwyllgor Corfforedig ddefnyddio'r rhain wrth iddo gyflawni ei amcanion llesiant.

Dylai'r Cydbwyllgor Corfforedig ystyried y llythyr hwn ar y cyd â'm hadroddiad cryno, sy'n darparu asesiad o sefyllfa gyfunol y pedwar Cydbwyllgor Corfforedig.

Rwy'n bwriadu gwneud gwaith pellach dros y 18-24 mis nesaf i asesu cynnydd y Cydbwyllgorau Corfforedig.

Yn gywir



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru